# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Meithrinfa Hen Ysgol**

**Yr Hen Ysgol**
**Chapel Street**
**Porthmadog**
**LL49 9DS**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

20/02/2020

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
| --- | --- |
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Meithrinfa Hen Ysgol wedi'i lleoli ym Mhorthmadog yng Ngwynedd. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ofalu am uchafswm o 48 o blant rhwng 3 mis ac 11 oed. Yr unigolyn cyfrifol a'r person â chyfrifoldeb yw Donna Ojemeyi. Yr oriau agor yw dydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 7:30 a.m. a 6:00 p.m. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ac mae'n gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'r gwasanaeth yn darparu cynnig Llywodraeth Cymru o 30 awr o ofal plant.

## Crynodeb

| Thema | Gradd |
|---|---|
| Llesiant | Rhagorol |
| Gofal a Datblygiad | Da |
| Yr Amgylchedd | Rhagorol |
| Arwain a Rheoli | Da |

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn ffynnu ac yn cael llawer o hwyl yn dysgu drwy chwarae. Maent yn meithrin cydberthnasau'n effeithiol ac yn datblygu eu hannibyniaeth mewn ffordd gadarnhaol. Mae'r staff gofal yn gweithredu mewn ffordd gynnes a chyfeillgar. Maent yn cynllunio ar gyfer gweithgareddau'n dda ac yn trefnu profiadau chwarae diddorol ac ysgogol i'r plant. Mae cynllun y feithrinfa yn cael dylanwad cadarnhaol sylweddol ar lesiant y plant. Mae'n amlwg bod y deunyddiau cynaliadwy ac ailgylchadwy yn helpu'r plant i ddatblygu eu sgiliau a chyfeirio eu chwarae eu hunain. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn ymrwymedig ac mae ganddynt weledigaeth arloesol ar gyfer gwneud gwelliannau. Mae partneriaethau â'r rhieni / gofalwyr a'r gymuned yn gadarnhaol.

### 2. Gwelliannau

Gwnaed gwelliannau sylweddol wrth weithio tuag at fod yn feithrinfa ecogyfeillgar drwy droi deunyddiau gwastraff yn adnoddau o ansawdd a gwerth amgylcheddol gwell. Mae'r bobl sy'n rhedeg y feithrinfa wedi gweithio'n galed i greu ardaloedd naturiol yn yr awyr agored i ddenu bywyd gwyllt. Mae ganddynt randir yng nghanol y gymuned lle y mae'r plant yn dysgu sut i dyfu ffrwythau, llysiau a blodau. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth wedi ymweld ag amrywiaeth o wasanaethau gofal plant ledled y DU i'w helpu i ddatblygu eu syniadau a gwella'r profiadau yn gyffredinol i'r plant.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Rydym wedi hysbysu'r unigolyn cyfrifol bod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â chadw cofnodion (rheoliad 30) a ffeiliau'r staff (rheoliad 28) er mwyn bodloni'r gofynion cyfreithiol yn llawn. Nid oes hysbysiadau wedi cael eu cyflwyno ar yr achlysur hwn, gan nad oedd unrhyw effaith uniongyrchol na sylweddol ar y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Rydym yn disgwyl i'r unigolyn cyfrifol gymryd camau i fynd i'r afael â'r achosion o ddiffyg cydymffurfio, ac ailystyrir y sefyllfa yn yr arolygiad nesaf.

Gwnaethom yr argymhelliad canlynol i'r plant ailgylchu eu gwastraff bwyd ar ôl prydau bwyd.

## 1. Llesiant Rhagorol

**Crynodeb**

Mae'r plant yn dysgu siarad yn hyderus ac mae llawer yn mynegi eu hunain yn glir. Maent yn awyddus i gymryd rhan mewn gweithgareddau am eu bod wedi'u hysbrydoli ac yn llawn cymhelliant. Mae'r plant yn gwneud cynnydd gwych o ran datblygu amrywiaeth eang o sgiliau drwy eu chwarae a'u dysgu. Maent yn datblygu eu hannibyniaeth yn dda.

**Ein canfyddiadau**

Mae'r plant yn ffynnu ac mae bron pob un ohonynt yn gallu siarad yn hyderus gan eu bod yn gwybod y bydd y staff gofal yn ymateb iddynt yn dda. Er enghraifft, wrth chwarae yn yr awyr agored, mae'r plant yn gofyn i'r staff gofal am y cyfarpar i baratoi'r gweithgaredd dŵr a chaiff hyn ei ddarparu iddynt. Mae'r plant yn hapus i drafod eu teimladau â'u ffrindiau drwy drafod eu rôl fel cynorthwyydd y dydd ac yn sgwrsio gyda ni am y ffaith eu bod yn defnyddio cyllell a fforc i fwyta.

Mae bron pob plentyn yn ymdopi'n dda iawn â bod i ffwrdd o'u teuluoedd gan eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi. Maent yn ymwybodol o'r drefn ddyddiol, er enghraifft, paratoi'r byrddau yn barod ar gyfer amser cinio a chasglu eu dillad a'u hesgidiau glaw cyn mynd allan i chwarae. Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, er enghraifft, maent yn mwynhau bod gyda'r staff gofal am fod llawer ohonynt yn chwerthin ac yn gwenu wrth iddynt edrych ar lyfrau ac ymarfer dweud lliwiau a rhifau.

Mae'r plant yn garedig tuag at ei gilydd ac yn meithrin cydberthnasau'n effeithiol. Er enghraifft, wrth chwarae yn yr awyr agored, mae un plentyn yn dal llaw ei ffrind i'w helpu i gerdded ar hyd y trawst cydbwyso. Mae'r plant yn dysgu cymryd eu tro a rhannu yn dda iawn. Er enghraifft, maent yn mwynhau rhannu'r brwshys paent trwchus a chymryd eu tro i osod eu brwsh yn y pot o ddŵr i wneud marciau. Maent yn sgwrsio â'i gilydd yn llawn cyffro cyn iddynt wylio rhaglen Sam Tân ac mae pob un ohonynt yn ymuno â'i gilydd yn hapus i ganu'r arwyddgan.

Mae bron pob un o'r plant yn cael llawer o hwyl drwy chwarae, cymryd rhan mewn gweithgareddau diddorol ac ysgogol i ddatblygu eu chwilfrydedd ac ymarfer defnyddio eu synhwyrau. Er enghraifft, mae'r plant iau yn mwynhau eistedd ar y clustogau cyfforddus i ymlacio a myfyrio gan ddefnyddio teganau eliffantod metel. Yn yr awyr agored, mae plentyn yn ysgwyd clochfar y gwynt gyda ffon yn ofalus ac yn chwerthin a gwenu wrth glywed y synau gwahanol.

Mae'r plant eraill yn datblygu eu sgiliau corfforol yn dda, ac yn mynd ati i balu ffosydd, cario darnau o bren a dringo olwyni a ailgylchwyd. Maent yn darganfod ffyrdd amrywiol o fod yn

greadigol megis creu mygydau ar gyfer Mardi Gras, chwyrlïo ewyn, siapio tywod i greu côn hufen iâ neu wrth baentio gyda dŵr. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu eu brwdfrydedd ar gyfer llyfrau ac yn darllen yn dda. Maent yn mwynhau ymateb i straeon a rhoi gwybod i'r staff gofal pa rai yw eu ffefrynnau.

Mae bron pob plentyn yn hoffi dechrau ei weithgaredd chwarae ei hun.  Er enghraifft, mae plentyn yn dewis chwarae gyda'r bwrdd clicied ac yn cymryd ei amser i ystyried sut y mae'n agor ac yn cau, gan ddatblygu ei chwilfrydedd a'r cydsymud rhwng ei ddwylo a'i lygaid yn dda iawn.  Mae bron pob plentyn yn datblygu ei annibyniaeth mewn ffordd gadarnhaol ac yn gallu archwilio'n rhydd a gwneud dewisiadau'n hyderus iawn.

## 2. Gofal a Datblygiad Da

**Crynodeb**

Mae'r staff gofal yn deall y polisïau a'r rhan fwyaf o'r gweithdrefnau'n dda i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch a llesiant personol, ac yn eu rhoi ar waith. Maent yn cynllunio gweithgareddau diddorol ac yn ymateb i anghenion unigol y plant yn effeithiol.

**Ein canfyddiadau**

Mae bron pob aelod o'r staff gofal yn deall sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Er enghraifft, maent yn darparu prydau a diodydd iach i'r plant. Maent yn dilyn gweithdrefnau hylendid da ac yn sicrhau bod dysgu am olchi dwylo yn hwyl. Mae'r staff gofal yn annog chwarae yn yr awyr agored yn frwdfrydig ac yn datblygu sgiliau corfforol y plant wrth iddynt fod yn egnïol yn yr awyr iach. Mae'r cofnodion damweiniau a digwyddiadau wedi cael eu llofnodi gan y staff gofal a'r claf / gofalwr. Serch hynny, nid oedd yr holl wybodaeth am frechiadau wedi cael ei chasglu. Gwnaethom drafod hyn â'r unigolyn cyfrifol a dywedodd wrthym y byddai'n mynd i'r afael â'r mater.

Er bod bron pob aelod o'r staff gofal yn rhoi'r polisïau a'r rhan fwyaf o'r gweithdrefnau ar waith yn dda, roedd angen newid y gweithdrefnau ar gyfer golchi dwylo ar ôl newid cewynnau i ddilyn y canllawiau cyfredol. Gwnaethom drafod y mater â'r unigolyn cyfrifol a aeth ati i roi camau ar waith i wneud gwelliannau. Caiff gwiriadau diogelwch tân ac ymarferion tân eu trefnu ar adegau priodol a chaiff sylwadau arnynt eu cofnodi. Ymatebodd y staff gofal yn briodol pan ofynnwyd iddynt am y camau y byddent yn eu dilyn pe bai ganddynt unrhyw bryderon am blentyn yn eu gofal. Maent wedi cwblhau'r hyfforddiant cyfredol ar ddiogelu a chymorth cyntaf.

Mae'r staff gofal yn gweithredu mewn modd cynnes, cyfeillgar a chroesawgar ac yn ymateb i anghenion unigol y plant yn dda. Maent yn rheoli'r achosion o ryngweithio'n deg ac yn gyson ac yn annog y plant i fod yn gwrtais ac yn garedig tuag at ei gilydd. Mae'r staff gofal yn rhoi cysur a sicrwydd yn ôl yr angen. Er enghraifft, wrth i'r plant baratoi i gysgu, mae'r staff yn eistedd wrth eu hymyl ac yn mwytho eu talcenni wrth wrando ar gerddoriaeth ymlaciol ac edrych ar luniau o awyr y nos gyda lleuad a sêr.

Mae'r staff gofal yn trefnu gweithgareddau diddorol ac ysgogol i'r plant a chânt eu cyflwyno'n dda. Maent yn cynllunio gweithgareddau'n effeithiol ac yn datblygu gwybodaeth y plant am eu byd naturiol a'r gymdeithas ehangach mewn ffordd gadarnhaol. Er enghraifft, creu arddangosfa ar y wal a oedd yn ogleuo gyda blodau a phlanhigion a gasglwyd ar daith

gerdded i'r coetir ac arddangos cyfarchion rhyngwladol, map o'r byd a mapiau lleol mewn ffordd ddeniadol er mwyn annog y plant i ymddiddori yn y byd o'u cwmpas.

Maent yn rhoi digon o gymorth i'r plant ddatblygu eu gweithgareddau chwarae dychmygus, er enghraifft ymunodd y staff gofal mewn gêm chwarae cowbois pan wnaeth plentyn eu gwahodd i wneud hynny.  Er bod y staff gofal yn rhoi cyfleoedd i'r plant ddysgu am y rhan fwyaf o agweddau ar ailygylchu a chynaliadwyedd, nid ydynt yn cael digon o gyfleoedd i ailygylchu eu gwastraff bwyd ar ôl prydau. Mae'r staff gofal yn gwneud newidiadau am gynnydd y plant yn da ac yn eu defnyddio i gynllunio ar gyfer eu camau dysgu nesaf yn effeithiol.

## 3. Yr Amgylchedd Rhagorol

**Crynodeb**

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod y feithrinfa yn ddiogel ac yn lân. Caiff yr ardaloedd chwarae eu trefnu mewn ffordd greadigol. Mae'r teganau, yr adnoddau a'r offer o ansawdd da iawn ac yn cyfoethogi profiadau chwarae a llesiant y plant.

**Ein canfyddiadau**

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod y feithrinfa yn ddiogel ac yn lân. Er enghraifft, mae ganddynt deledu cylch cyfyng a system dda ar gyfer rheoli mynediad i'r safle ac maent yn cadw cofnod o ymwelwyr. Maent yn cwblhau asesiadau risg ac yn trefnu gwiriadau iechyd a diogelwch yn ddyddiol. Mae'r arferion hylendid yn effeithiol a'r arferion glanhau yn gyson. Maent yn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelwch a lles y plant, ac yn eu goruchwylio'n dda er mwyn sicrhau diogelwch y plant.

Mae'r feithrinfa yn groesawgar a chyfeillgar iawn. Mae amrywiaeth o wybodaeth i rieni / gofalwyr yn y fynedfa er mwyn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am yr hyn sy'n digwydd. Maent yn sicrhau bod gan y plant le i storio eu heitemau personol. Mae'r dodrefn a'r cyfarpar yn addas ar gyfer oedran a cham datblygu'r plant. Mae hyn yn helpu i greu ymdeimlad da o berthyn.

Caiff y feithrinfa ei threfnu'n dda er mwyn sicrhau ei bod yn darparu amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae cyffrous sy'n addas ar gyfer oedran pob plentyn y gofelir amddano. Mae gweledigaeth arloesol ar waith a chaiff yr ardaloedd chwarae eu datblygu'n effeithiol gan ddefnyddio adnoddau cynaliadwy ac ailgylchadwy. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar lesiant y plant gan eu bod yn gallu defnyddio'r deunyddiau hyn yn rhydd i ddatblygu eu sgiliau dylunio a'u dychymyg. Mae'r teganau a'r offer o ansawdd da iawn ac yn canolbwyntio ar brofiadau synhwyraidd y plant. Er enghraifft, gwelwyd gwaith celf du a gwyn y plant a oedd yn dangos eu bod wedi bod yn arbrofi gydag arlliw, lliw a golau yn effeithiol.

Caiff yr ardaloedd dysgu dan do ac yn yr awyr agored eu trefnu'n greadigol, er enghraifft, dangosodd y plant i ni sut yr oeddent yn defnyddio recordiau finyl fel byrddau i rolio eu toes chwarae sy'n ogleuo fel siocled a chwarae yn yr hen gesys dillad a oedd yn llawn tywod. Casglwyd dŵr glaw a chafodd ei ddefnyddio'n dda i drefnu gweithgareddau diddorol i'r plant arbrofi gyda mudiant a chyfaint. Roedd paledau pren wedi cael eu defnyddio mewn ffordd arloesol i rannu a chreu ardaloedd gwahanol i'r plant. Er enghraifft, roedd un ardal yn cynnwys bwrdd mosäig â theils cyffyrddol gydag amrywiaeth o ddeunyddiau celf ac roedd to wedi cael ei osod gyda hesian a goleuadau bach mewn ardal arall i greu cornel gartrefol a chyfforddus i'r plant ymlacio a chysgu ynddi.

## 4. Arwain a Rheoli Da

### Crynodeb

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn ymroddedig. Mae ganddynt system addas ar gyfer gwerthuso'r gwasanaeth. Caiff yr adnoddau a'r staff gofal eu rheoli'n dda. Mae partneriaethau â'r rhieni / gofalwyr a'r gymuned yn gadarnhaol.

### Ein canfyddiadau

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth ddisgwyliadau uchel ar gyfer gwneud gwelliannau ac mae'r staff gofal yn gweithio'n dda fel tîm. Mae'r staff gofal yn dweud wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rôl a'u bod yn mwynhau gweithio yn y feithrinfa. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn rhannu datganiad o ddiben cyfredol â'r rhieni / gofalwyr, sy'n rhoi darlun cywir o'r hyn y mae'r gwasanaeth yn ei gynnig. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith a chânt eu rhoi ar waith yn dda. Mae ganddynt weledigaeth arloesol i'r feithrinfa ganolbwyntio ar welliannau amgylcheddol pellach drwy greu greu mwy o ardaloedd naturiol er mwyn datblygu dysgu'r plant drwy chwarae. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn hyrwyddo'r Gymraeg yn dda ac yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol'.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth a'r staff gofal yn hen gyfarwydd â'r gwasanaeth ac mae ganddynt system dda ar waith i gasglu barn pawb ar ffurf blwch awgrymiadau, drwy siarad â'r plant, y rhieni / y gofalwyr a dosbarthu holiaduron. Maent wedi eu defnyddio'n dda i lunio adroddiad manwl ar ansawdd y gofal sy'n dangos yr hyn y mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn dda a pha welliannau a gaiff eu gwneud er mwyn gwella profiadau'r plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod yr holl staff gofal yn meddu ar y cymwysterau addas ac wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf. Gwnaethom fwrw golwg dros ffeiliau dau aelod newydd o'r staff ond nid oedd yr holl wybodaeth ofynnol wedi cael ei chasglu. Ers yr arolygiad, mae'r unigolyn cyfrifol wedi cyflwyno datganiad i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn cadarnhau ei bod wedi mynd i'r afael â'r mater. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod y staff gofal yn cael eu goruchwylio a'u harfarnu er mwyn rhoi'r cyfle iddynt drafod eu llesiant, eu hyfforddiant a'u hanghenion proffesiynol eu hunain. Gwnaethom edrych ar gofnodion unigol dau blentyn, ond roedd rhywfaint o'r wybodaeth berthnasol ar goll. Ers yr arolygiad, mae'r unigolyn cyfrifol wedi cyflwyno tystiolaeth i AGC i ddangos bod y mater hwn wedi cael ei ddatrys.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth bartneriaethau cadarn â'r rhieni / gofalwyr a'r gymuned. Yn ôl y rhieni / gofalwyr, mae eu plant yn hapus ac wedi ymgartrefu yn y feithrinfa. Maent yn dweud bod y staff gofal yn wych am eu bod yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am gynnydd eu plant ar ap y cyfryngau cymdeithasol ac yn siarad â nhw bob dydd er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn yr holl wybodaeth am yr hyn sy'n digwydd. Yn ôl y rhieni / gofalwyr, mae hyn yn eu helpu i ddechrau sgyrsiau gyda'u plant am y gweithgareddau y maent wedi bod yn cymryd rhan ynddynt yn ystod y dydd.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn ymgysylltu'n effeithiol â'r gymuned, er enghraifft, caiff y plant amrywiaeth o gyfleoedd i bobi bisgedi a chreu parseli o anrhegion fel hapweithred o garedigrwydd i bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal preswyl a'r rheini sy'n gweithio yn y fyddin. Mae'r cyfleoedd hyn yn cyfoethogi profiadau'r plant i ddysgu a thyfu'n gadarnhaol.

# 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

## 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Dylai'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth ystyried y canlynol:

- Datblygu gwybodaeth y plant drwy roi cyfleoedd iddynt ailgylchu eu gwastraff bwyd ar ôl prydau bwyd.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen o arolygiadau. Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ddydd Iau, 20 Chwefror 2020 rhwng 10:30 a.m. a 10:55 a.m. a rhwng 10:56 a.m. a 6:15 p.m.

Gwnaethom y canlynol:

- edrych ar sampl o ddogfennau, polisïau, ffeiliau dau aelod o'r staff gofal a chofnodion unigol
dau blentyn;

- arsylwi ar ymarfer a chwblhau sesiynau arsylwi er mwyn cael tystiolaeth o'r plant yn ymgysylltu a'r gofal a ddarperir gan y staff gofal;

- archwilio'r ardaloedd a ddefnyddir, y teganau a'r adnoddau

- siarad â'r plant, y staff gofal, yr unigolyn cyfrifol, y dirprwy reolwr ac un rhiant / gofalwr.

Gwnaethom y canlynol,

- rhoi adborth i'r unigolyn cyfrifol a'r dirprwy reolwr dros y ffôn ddydd Iau 27 Chwefror 2020 am 9:30 a.m.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Unigolyn Cyfrifol | Donna Ojemeyi |
| Person â chyfrifoldeb | Donna Ojemeyi |
| Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd | 48 |
| Ystod oedran y plant | 3 mis i 11 oed |
| Oriau agor | Dydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 7:30am a 5:00pm. |
| Iaith weithredol y gwasanaeth | Y ddwy iaith – Cymraeg a Saesneg. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 01 Chwefror 2018 |
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 20 Chwefror 2020 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydynt |
| A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed? | Nac ydynt |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog. |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 31/07/2020